CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 678 (Cy.66)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesaddaliad 2002 ("y Ddeddf"). Mae'r Bennod honno'n darparu ar gyfer caffael ac arfer hawliau mewn perthynas â rheoli mangre y mae'r Bennod yn gymwys iddi gan gwmni a allai, yn unol â'r Bennod honno, gaffael ac arfer yr hawliau hynny ("cwmni RTM").

Cyn y gall cwmni RTM gaffael yr hawl i reoli mangre, rhaid iddo roi hysbysiad ("hysbysiad yn gwahodd cymryd rhan") i denantiaid y fflatiau hynny sydd yn y fangre sydd yn "denantiaid cymwys" (gweler adran 75 o'r Ddeddf) o'i fwriad i gaffael yr hawl. Rhaid i'r hysbysiad wahodd y rhai sy'n ei dderbyn i ddod yn aelodau o'r cwmni RTM. Mae Rheoliad 3, y mae Atodlen 1 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn berthnasol iddo, yn rhagnodi gofynion, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 78 o'r Ddeddf, o ran cynnwys yr hysbysiad.

Cyn gynted ag y mae cwmni RTM wedi rhoi hysbysiad yn gwahodd cymryd rhan, caiff wneud hawliad i gaffael yr hawl i reoli. Mae'n ofynnol i'r hawliad gael ei wneud drwy hysbysiad ("hysbysiad hawlio"), a roddir i bob person -

(a) sy'n landlord o dan les o'r cyfan neu unrhyw ran o'r fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi,

(b) sy'n barti i les o'r fath heblaw fel landlord neu denant, neu

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 678 (W.66)

LANDLORD AND TENANT, WALES

The Right to Manage (Prescribed Particulars and Forms) (Wales) Regulations 2004

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations supplement Chapter 1 of Part 2 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 ("the Act"). That Chapter makes provision for the acquisition and exercise of rights in relation to the management of premises to which the Chapter applies by a company which, in accordance with that Chapter, may acquire and exercise those rights ("RTM company").

Before a RTM company can acquire the right to manage premises, it must give notice ("notice of invitation to participate") to those tenants of flats contained in the premises who are "qualifying tenants" (see section 75 of the Act) of its intention to acquire the right. The notice must invite the recipients of it to become members of the RTM company. Regulation 3, to which Schedule 1 of these Regulations is also relevant, prescribes requirements, in addition to those specified in section 78 of the Act, as regards the contents of the notice.

Once the RTM company has given notice of invitation to participate, it may make a claim to acquire the right to manage. The claim is required to be made by notice ("claim notice"), that is to be given to each person who is-

(a) landlord under a lease of the whole or any part of the premises to which the notice relates,

(b) party to such a lease otherwise than as landlord or tenant, or

(c) sy'n rheolwr a benodwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 i weithredu mewn perthynas â'r fangre, neu unrhyw fangre sy'n cynnwys neu a gynhwysir yn y fangre.

Mae Rheoliad 4, y mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn hefyd yn berthnasol iddo, yn rhagnodi gofynion, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 80 o'r Ddeddf, o ran cynnwys yr hysbysiad.

Caiff person sy'n derbyn hysbysiad hawlio ymateb drwy roi gwrth-hysbysiad i'r cwmni RTM, y caiff hawliad y cwmni RTM naill ai ei addef neu ei wrthwynebu ynddo. Mae Rheoliad 5, y mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn hefyd yn berthnasol iddo, yn rhagnodi gofynion, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 84 o'r Ddeddf, o ran cynnwys yr hysbysiad.

Os yw person sydd â hawl i dderbyn hysbysiad hawlio hefyd yn barti i gontract y mae'r parti arall i'r contract yn cytuno i ddarparu gwasanaethau odano, neu wneud pethau eraill odano, mewn cysylltiad ag unrhyw fater ynghylch swyddogaeth a fydd yn swyddogaeth y cwmni RTM cyn gynted ag y bydd yn caffael yr hawl i reoli'r fangre, rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r parti arall i'r contract ("hysbysiad contractiwr") a'r cwmni RTM ("hysbysiad contract"). Mae Rheoliadau 6 a 7 (y mae Atodlenni 4 a 5 i'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddynt yn ôl eu trefn) yn rhagnodi gofynion, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adran 92 o'r Ddeddf, o ran cynnwys yr hysbysiadau contractiwr a'r hysbysiadau contract, yn ôl eu trefn.

Mae Rheoliad 8 yn rhagnodi ffurf y gwahoddiadau i gymryd rhan, yr hysbysiadau hawlio, y gwrth-hysbysiadau, yr hysbysiadau contractiwr a'r hysbysiadau contract.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Cyfarwyddiaeth Dai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathys, Caerdydd CF10 3NQ (Ffôn 029 2082 3025).

(c) a manager appointed under Part 2 of the Landlord and Tenant Act 1987 to act in relation to the premises, or any premises containing or contained in the premises.

Regulation 4, to which Schedule 2 to these Regulations is also relevant, prescribes requirements, in addition to those specified in section 80 of the Act, as regards the contents of the notice.

A person who receives a claim notice may respond by giving the RTM company a counter-notice, in which the RTM company's claim is either admitted or opposed. Regulation 5, to which Schedule 3 to these Regulations is also relevant, prescribes requirements, in addition to those specified in section 84 of the Act, as regards the contents of the notice.

If a person who is entitled to receive a claim notice is also party to a contract under which the other party to the contract agrees to provide services, or do other things, in connection with any matter relating to a function that will be the function of the RTM company once it acquires the right to manage the premises, that person must give notice to the other party to the contract ("contractor notice") and to the RTM company ("contract notice"). Regulations 6 and 7 (to which Schedules 4 and 5 to these Regulations are relevant respectively) prescribe requirements, in addition to those specified in section 92 of the Act, as regards contractor notices and contract notices, respectively.

Regulation 8 prescribes the form of invitations to participate, claim notices, counter-notices, contractor notices and contract notices.

A Regulatory Appraisal has been prepared in connection with these Regulations. A copy may be obtained from the Housing Directorate of the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (Tel 029 2082 3025).

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 678 (Cy.66)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 78(2)(d) a (3), 80(8) a (9), 84(2), 92(3) a (7) a 178(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**a**) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**b**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i fangreoedd yng Nghymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002;

(a) 2002 p.15. Mae'r pwerau'n arferadwy gan yr awdurdod cenedlaethol priodol. Diffinnir "the appropriate national authority" yn adran 179(1) fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. *Gweler* adran 178(3) mewn cysylltiad â'r pwer i wneud Rheoliadau

(b) 1993 p.38. Mae swyddogaethau'r Gweinidog o dan adran 26 o Ddeddf 1993 yn arferadwy yn gydredol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd ag unrhyw Weinidog y Goron sy'n eu harfer, yn rhinwedd y cofnod mewn perthynas â Deddf 1993 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38).

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 678 (W.66)

LANDLORD AND TENANT, WALES

The Right to Manage (Prescribed Particulars and Forms) (Wales) Regulations 2004

Made	*9th March 2004*
Coming into force	*31st March 2004*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 78(2)(d) and (3), 80(8) and (9), 84(2), 92(3) and (7) and 178(1) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002(**a**) and section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**b**), hereby makes the following Regulations:

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Right to Manage (Prescribed Particulars and Forms) (Wales) Regulations 2004 and shall come into force on 31st March 2004.

(2) These Regulations apply in relation to premises in Wales only.

Interpretation

2. In these Regulations-

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002;

(a) 2002 c.15. The powers are exerciseable by the appropriate national authority. "The appropriate national authority" is defined in section 179(1) as the National Assembly for Wales as respects Wales and the Secretary of State as respects England. *See* section 178(3) as to the power to make Regulations.

(b) 1993 c.38. Functions of the Minister under section 26 of the 1993 Act are exerciseable concurrently by the National Assembly for Wales with any Minister of the Crown by whom they are exercisable, by virtue of the entry in relation to the 1993 Act in Schedule 1 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and section 22(1) of the Government of Wales Act 1998 (c. 38).

ystyr "landlord", ("*landlord*") mewn perthynas â mangre RTM, yw person sy'n landlord o dan brydles o'r cyfan neu unrhyw ran o'r fangre(**a**);

ystyr "mangre RTM" ("*RTM premises*") yw mangre y mae cwmni RTM yn bwriadu caffael yr hawl i reoli mewn cysylltiad â hi(**b**);

ystyr "trydydd parti" ("*third party*"), mewn perthynas â mangre RTM, yw person sy'n barti i brydles o'r cyfan neu unrhyw ran o'r fangre heblaw yn landlord neu'n denant(**c**).

"landlord", ("*landlord*") in relation to RTM premises, means a person who is landlord under a lease of the whole or any part of the premises(**a**);

"RTM premises" ("*mangre RTM*") means premises as regards which a RTM company intends to acquire the right to manage(**b**);

"third party" ("*trydydd parti*"), in relation to RTM premises, means a person who is party to a lease of the whole or any part of the premises otherwise than as landlord or tenant(**c**).

Cynnwys ychwanegol yr hysbysiad sy'n gwahodd cymryd rhan

3.-(1) Rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd cymryd rhan(**ch**) gynnwys (yn ychwanegol at y datganiadau a'r gwahoddiad y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) i (c) o is-adran (2) o adran 78 (hysbysiad yn gwahodd cymryd rhan) o Ddeddf 2002), y manylion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) -

(a) rhif cofrestredig y cwmni RTM(**d**), cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig ac enwau ei gyfarwyddwyr a'i ysgrifennydd;

(b) enwau'r landlord ac unrhyw drydydd parti;

(c) datganiad, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a grybwyllir yn is-baragraff (d), os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y bydd y cwmni'n gyfrifol am-

(i) cyflawni dyletswyddau'r landlord o dan y les; a

(ii) arfer ei bwerau o dan y les,

o ran gwasanaethau, trwsio, cynnal a chadw, gwelliannau, yswiriant a rheoli;

(ch) datganiad, yn ddarostyngedig i'r eithriad a grybwyllir yn is-baragraff (d)(ii), os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y caiff y cwmni orfodi cyfamodau tenant na chafodd eu trosglwyddo(**dd**);

(d) datganiad, os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, na fydd y cwmni'n gyfrifol am

Additional content of notice of invitation to participate

3.-(1) A notice of invitation to participate(**d**) shall contain (in addition to the statements and invitation referred to in paragraphs (a) to (c) of subsection (2) of section 78 (notice inviting participation) of the 2002 Act), the particulars mentioned in paragraph (2).

(2) The particulars referred to in paragraph (1) are-

(a) the RTM company's registered number(**e**), the address of its registered office and the names of its directors and secretary;

(b) the names of the landlord and any third party;

(c) a statement that, subject to the exclusions mentioned in sub-paragraph (e), if the right to manage is acquired by the RTM company, the company will be responsible for-

(i) the discharge of the landlord's duties under the lease; and

(ii) the exercise of his powers under the lease,

with respect to services, repairs, maintenance, improvements, insurance and management;

(d) a statement that, subject to the exclusion mentioned in sub-paragraph (e)(ii), if the right to manage is acquired by the RTM company, the company may enforce untransferred tenant covenants(**f**);

(e) a statement that, if the right to manage is acquired by the RTM company, the company

(a) O ran y diffinaid o "landlord" *gweler* adran 112, (3) a (5) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. I gael diffiniad o "lease" *gweler* adran 112(2) o'r Ddeddf honno.

(b) I gael y diffiniad o "RTM Company" *gweler* adrannau 71(1) a 73 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. *Gweler* adran 72 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddlaid 2002 er mwyn y mangreoedd y mae'r hawl i reoli yn gymwys iddynt.

(c) O ran y diffiniad o "tenant" *gweler* adran 112(2) a (3) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(ch) *Gweler* adran 78(2) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(d) *Gweler* adran 705(1) o Ddeddf Cwmnïau 1985 (p.6). Amnewidiwyd adran 705 gan Ddeddf Cwmnïau 1989 (p.40), Atodlen 19, paragraff14.

(dd) Er mwyn "untransferred tenant covenants" ("cyfamodau tenant na chafodd eu trosglwyddo") gweler adran 100(4) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(a) As to "landlord" *see* section 112, (3) and (5) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. As to "lease" *see* section 112(2) of that Act.

(b) As to "RTM company", *see* sections 71(1) and 73 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. As to "the right to manage" see section 71(2) of that Act. As to premises to which the right to manage applies *see* section 72 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(c) As to "tenant" *see* section 112(2), (3) and (5) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(d) *See* section 78(2) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(e) *See* section 705(1) of the Companies Act 1985 (c.6). Section 705 was substituted by the Companies Act 1989 (c.40), Schedule 19, paragraph 14.

(f) As to "untransferred tenant covenants" *see* section 100(4) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

gyflawni dyletswyddau'r landlord nac arfer ei bwerau o dan y les-

(i) o ran mater sy'n ymwneud yn unig â rhan o'r fangre sy'n fflat neu'n uned arall nad yw'n ddarostyngedig i les a gaiff ei dal gan denant cymwys(**a**); neu

(ii) ynghylch ailfynediad neu fforffediad;

(dd) datganiad, os bydd y cwmni RTM yn caffael yr hawl i reoli, y bydd gan y cwmni swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 7 i Ddeddf 2002;

(e) datganiad bod y cwmni RTM yn bwriadu neu, yn ôl y digwydd, nad yw'n bwriadu, penodi asiant rheoli o fewn ystyr adran 30B(8) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**b**); ac,

(i) os yw'n fwriad o'r fath ganddo, ddatganiad-

(aa) o enw a chyfeiriad yr asiant rheoli arfaethedig (os yw'n wybyddus); a

(bb) os yw'n wir, bod y person yn asiant rheoli i'r landlord; neu

(ii) os nad yw'n fwriad o'r fath ganddo, cymwysterau neu brofiad (os oes rhai) aelodau presennol y cwmni RTM mewn perthynas â rheoli eiddo preswyl;

(f) datganiad, os bydd y cwmni'n rhoi hysbysiad hawlio(**c**), y gall person sydd neu sydd wedi bod yn aelod o'r cwmni fod yn atebol am gostau a dynnwyd gan y landlord ac eraill o ganlyniad i'r hysbysiad;

(ff) datganiad, os nad yw'r sawl sy'n derbyn yr hysbysiad (yn gwahodd i gymryd rhan) yn llwyr ddeall ei ddiben neu ei oblygiadau, sy'n ei gynghori i geisio cymorth proffesiynol; ac

(g) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

will not be responsible for the discharge of the landlord's duties or the exercise of his powers under the lease-

(i) with respect to a matter concerning only a part of the premises consisting of a flat or other unit not subject to a lease held by a qualifying tenant(**a**); or

(ii) relating to re-entry or forfeiture;

(f) a statement that, if the right to manage is acquired by the RTM company, the company will have functions under the statutory provisions referred to in Schedule 7 to the 2002 Act;

(g) a statement that the RTM company intends or, as the case may be, does not intend, to appoint a managing agent within the meaning of section 30B(8) of the Landlord and Tenant Act 1985(**b**); and-

(i) if it does so intend, a statement-

(aa) of the name and address of the proposed managing agent (if known); and

(bb) if it be the case, that the person is the landlord's managing agent; or

(ii) if it does not so intend, the qualifications or experience (if any) of the existing members of the RTM company in relation to the management of residential property;

(h) a statement that, where the company gives a claim notice(**c**), a person who is or has been a member of the company may be liable for costs incurred by the landlord and others in consequence of the notice;

(i) a statement that, if the recipient of the notice (of invitation to participate) does not fully understand its purpose or implications, he is advised to seek professional help; and

(j) the information provided in the notes to the form set out in Schedule 1 to these Regulations.

Cynnwys ychwanegol hysbysiad hawlio

4. Rhaid i hysbysiad hawlio(**ch**) gynnwys (yn ychwanegol at y manylion sy'n ofynnol gan is-adrannau (2) i (7) o adran 80 (cynnwys hysbysiad hawlio) o Ddeddf 2002)-

(a) datganiad bod y person -

Additional content of claim notice

4. A claim notice(**d**) shall contain (in addition to the particulars required by subsections (2) to (7) of section 80 (contents of claim notice) of the 2002 Act)-

(a) a statement that a person who-

(a) O ran y mangre y mae Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cyfunddaliad a Cyfraith Diwygio a Lesddaliad 2002 yn gymwys, *gweler* adran 72 (ac Atodlen 6).). I gael diffiniad o "flat" ("fflat") ac "unit" ("uned") *gweler* adran 112(1). I gael diffiniad o "lease" ("les") *gweler* adran 112(2). I gael diffiniad o "qualifying tenant" ("tenant cymwys"), *gweler* adrannau 75 a 112(4) a (5).

(b) 1985 p.70. Mewnosodwyd adran 30B gan Ddeddf Landlord a Thenant 1987 (p.31), adran 44.

(c) I gael diffiniad o "claim notice" ("hysbysiad hawlio") *gweler* adran 79(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(ch) *Gweler* adran 79(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(a) As to premises to which Chapter 1 of Part 2 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 applies, *see* section 72 (and Schedule 6).). As to "flat" and "unit" *see* section 112(1). As to "lease" *see* section 112(2). As to "qualifying tenant", see sections 75 and 112(4) and (5).

(b) 1985 c.70. Section 30B was inserted by the Landlord and Tenant Act 1987 (c.31), section 44.

(c) As to "claim notice" *see* section 79(1) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(d) *See* section 79(1) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(i) nad yw'n dadlau â hawl y cwmni RTM i gaffael yr hawl i reoli(**a**); a

(ii) sydd yn barti rheolwr o dan gontract rheoli(**b**) sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hawlio o dan adran 80(6) o Ddeddf 2002,

yn gorfod, yn unol ag adran 92 (dyletswyddau i roi gwybod am gontractau) o Ddeddf 2002, roi hysbysiad mewn perthynas â'r contract i'r person sydd yn barti contractiwr(**c**) mewn perthynas â'r contract a'r cwmni RTM;

(b) datganiad bod landlordiaid o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r fangre y mae'r hysbysiad hawlio yn berthnasol iddi â hawl i fod yn aelodau o'r cwmni RTM o'r dyddiad caffael(**ch**);

(c) datganiad nad yw'r hysbysiad wedi'i annilysu gan unrhyw anghywirdeb yn unrhyw fanylion sy'n ofynnol gan adran 80(2) i (7) o Ddeddf 2002 neu'r rheoliad hwn, ond y caiff person sydd o'r farn bod unrhyw fanylion sydd yn yr hysbysiad hawlio yn anghywir-

(i) nodi'r manylion o dan sylw i'r cwmni RTM a roddodd yr hysbysiad; a

(ii) dangos pam yr ystyrir eu bod yn anghywir;

(ch) datganiad bod y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad ond nad yw'n llwyr ddeall ei ddiben, yn cael ei gynghori i geisio cymorth proffesiynol; a

(d) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(i) does not dispute the RTM's company's entitlement to acquire the right to manage(**a**); and

(ii) is the manager party under a management contract(**b**) subsisting immediately before the date specified in the claim notice under section 80(6) of the 2002 Act,

must, in accordance with section 92 (duties to give notice of contracts) of the 2002 Act, give a notice in relation to the contract to the person who is the contractor party(**c**) in relation to the contract and to the RTM company;

(b) a statement that, from the acquisition date(**d**), landlords under leases of the whole or any part of the premises to which the claim notice relates are entitled to be members of the RTM company;

(c) a statement that the notice is not invalidated by any inaccuracy in any of the particulars required by section 80(2) to (7) of the 2002 Act or this regulation, but that a person who is of the opinion that any of the particulars contained in the claim notice are inaccurate may-

(i) identify the particulars in question to the RTM company by which the notice was given; and

(ii) indicate the respects in which they are considered to be inaccurate;

(d) a statement that a person who receives the notice but does not fully understand its purpose, is advised to seek professional help; and

(e) the information provided in the notes to the form set out in Schedule 2 to these Regulations.

Cynnwys ychwanegol gwrth-hysbysiad

5. Rhaid i wrth-hysbysiad gynnwys (yn ychwanegol at y datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b) o is-adran (2) o adran 84 (gwrth-hysbysiadau) o Ddeddf 2002)-

(a) datganiad y caiff y cwmni RTM, os cafodd y cwmni un gwrth-hysbysiad neu fwy sy'n cynnwys datganiad fel y crybwyllir ym mharagraff (b) o is-adran (2) o adran 84 o Ddeddf 2002, gyflwyno cais i dribiwnlys prisio lesddaliad am benderfyniad bod gan y cwmni, ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o hawliad, yr awdurdod i gaffael yr hawl i

Additional content of counter-notice

5. A counter-notice shall contain (in addition to the statement referred to in paragraph (a) or (b) of subsection (2) of section 84 (counter-notices) of the 2002 Act)-

(a) a statement that, where the RTM company has been given one or more counter-notices containing such a statement as is mentioned in paragraph (b) of subsection (2) of section 84 of the 2002 Act, the company may apply to a leasehold valuation tribunal for a determination that, on the date on which notice of the claim was given, the company was

(a) O ran yr amgylchiadau lle nad oes dadl am yr hawl, *gweler* adran 90(3) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith a Lesddaliad 2002.

(b) I gael y diffiniad o "manager party" *gweler* adran 91(2) a 4 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. Er mwyn "management contract" *gweler* adran 91(2) o'r Ddeddf honno.

(c) Er mwyn "contractor party" *gweler* adran 91(2)(b) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(ch) *Gweler* adrannau 74(1)(b) a 90 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002

(a) As to the circumstances in which there is no dispute about entitlement, see section 90(3) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(b) As to "manager party" see section 91(2) and (4) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. As to "management contract" see section 91(2) of that Act.

(c) As to "contractor party" see section 91(2)(b) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(d) See sections 74(1)(b) and 90 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

reoli'r fangre a bennir yn yr hysbysiad hawlio;

(b) datganiad na chaiff y cwmni RTM, os cafodd y cwmni un gwrth-hysbysiad neu fwy sy'n cynnwys datganiad fel yr un a grybwyllir ym mharagraff (b) o is-adran (2) o adran 84 o Ddeddf 2002, yr hawl i reoli'r fangre a bennir yn yr hysbysiad hawlio oni bai-

(i) y penderfynir yn derfynol(**a**) ar gais i dribiwnlys prisio lesddaliad bod yr awdurdod gan y cwmni i gaffael yr hawl i reoli'r fangre; neu

(ii) bod y person a roddodd y gwrth-hysbysiad, neu'r personau a roddodd y gwrth-hysbysiadau, yn cytuno'n ysgrifenedig fod gan y cwmni yr awdurdod hwnnw; ac

(c) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

Cynnwys ychwanegol hysbysiad contractiwr

6. Rhaid i hysbysiad contractiwr(**b**) gynnwys (yn ychwanegol at y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) i (d) o is-adran (3) o adran 92 (dyletswyddau i roi gwybod am gontractau) o Ddeddf 2002) -

(a) datganiad, pe bai'r person y rhoddir yr hysbysiad iddo yn dymuno darparu gwasanaethau i'r cwmni RTM y mae, fel y parti contractiwr, wedi ei ddarparu i'r parti rheolwr(**c**) o dan y contract y ceir manylion amdano yn yr hysbysiad, cynghorir ei fod yn cysylltu â'r cwmni RTM yn y cyfeiriad a roddir yn yr hysbysiad; a

(b) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

Cynnwys ychwanegol hysbysiad contract

7. Rhaid i hysbysiad contract(**ch**) gynnwys (yn ychwanegol at y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) o is-adran (7) o adran 92 o Ddeddf 2002)-

(a) cyfeiriad y person sy'n barti contractiwr, neu'n barti is-gontractiwr(**d**), o dan y contract y ceir manylion amdano yn yr hysbysiad;

(a) *Gweler* adran 84(7) ac 8 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(b) *Gweler* adran 92(1)(a) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(c) I gael y diffiniad o "manager party" *gweler* adran 91(2)(a) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith a Lesddaliad 2002.

(ch) *Gweler* adran 92(1)(b) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(d) Er mwyn "sub-contractor party" *gweler* adran 92(4) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

entitled to acquire the right to manage the premises specified in the claim notice;

(b) a statement that, where the RTM company has been given one or more counter-notices containing such a statement as is mentioned in paragraph (b) of subsection (2) of section 84 of the 2002 Act, the company does not acquire the right to manage the premises specified in the claim notice unless-

(i) on an application to a leasehold valuation tribunal, it is finally determined(**a**) that the company was entitled to acquire the right to manage the premises; or

(ii) the person by whom the counter-notice was given agrees, or the persons by whom the counter-notices were given agree, in writing that the company was so entitled; and

(c) the information provided in the notes to the form set out in Schedule 3 to these Regulations.

Additional content of contractor notice

6. A contractor notice(**b**) shall contain (in addition to the particulars referred to in paragraphs (a) to (d) of subsection (3) of section 92 (duties to give notice of contracts) of the 2002 Act) -

(a) a statement that, should the person to whom the notice is given wish to provide to the RTM company services which, as the contractor party, it has provided to the manager party(**c**) under the contract of which details are given in the notice, it is advised to contact the RTM company at the address given in the notice; and

(b) the information provided in the notes to the form set out in Schedule 4 to these Regulations.

Additional content of contract notice

7. A contract notice(**d**) shall contain (in addition to the particulars referred to in paragraph (a) of subsection (7) of section 92 of the 2002 Act)-

(a) the address of the person who is the contractor party, or sub-contractor party(**e**), under the contract of which particulars are given in the notice;

(a) *See* section 84(7) and (8) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(b) *See* section 92(1)(a) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(c) As to "manager party" *see* section 91(2)(a) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(d) *See* section 92(1)(b) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(e) As to "sub-contractor party" *see* section 92(4) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

(b) datganiad, pe bai'r cwmni RTM yn dymuno defnyddio'r gwasanaethau y mae'r parti contractiwr, neu barti is-gontractiwr, wedi ei ddarparu i'r parti rheolwr o dan y contract hwnnw, cynghorir ei fod yn cysylltu â'r parti contractiwr, neu barti is-gontractiwr, yn y cyfeiriad a roddwyd yn yr hysbysiad; a

(c) yr wybodaeth a roddir yn y nodiadau i'r ffurf a nodir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn.

Ffurf yr hysbysiadau

8.-(1) Rhaid i hysbysiadau sy'n gwahodd cymryd rhan fod yn y ffurf a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn a phan roddir dyddiadau yn yr hysbysiadau rhaid defnyddio ffigurau ac nid geiriau.

(2) Rhaid i hysbysiadau hawlio fod yn y ffurf a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn a phan roddir dyddiadau yn yr hysbysiadau rhaid defnyddio ffigurau ac nid geiriau.

(3) Rhaid i wrth-hysbysiadau fod yn y ffurf a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn a phan roddir dyddiadau yn yr hysbysiadau rhaid defnyddio ffigurau ac nid geiriau.

(4) Rhaid i hysbysiadau contractiwr fod yn y ffurf a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn a phan roddir dyddiadau yn yr hysbysiadau rhaid defnyddio ffigurau ac nid geiriau.

(5) Rhaid i hysbysiadau contract fod yn y ffurf a nodir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn a phan roddir dyddiadau yn yr hysbysiadau rhaid defnyddio ffigurau ac nid geiriau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

9 Mawrth 2004

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

(b) a statement that, should the RTM company wish to avail itself of the services which the contractor party, or sub-contractor party, has provided to the manager party under that contract, it is advised to contact the contractor party, or sub-contractor party, at the address given in the notice; and

(c) the information provided in the notes to the form set out in Schedule 5 to these Regulations.

Form of notices

8.-(1) Notices of invitation to participate must be in the form set out in Schedule 1 to these Regulations and where dates are inserted in the notices they must be inserted using numbers and not words.

(2) Claim notices must be in the form set out in Schedule 2 to these Regulations and where dates are inserted in the notices they must be inserted using numbers and not words.

(3) Counter-notices must be in the form set out in Schedule 3 to these Regulations and where dates are inserted in the notices they must be inserted using numbers and not words.

(4) Contractor notices must be in the form set out in Schedule 4 to these Regulations and where dates are inserted in the notices they must be inserted using numbers and not words.

(5) Contract notices must be in the form set out in Schedule 5 to these Regulations and where dates are inserted in the notices they must be inserted using numbers and not words.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

9th March 2004

John Marek

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

ATODLEN 1 : SCHEDULE 1

Rheoliadau 3(2)(g) ac 8(1) Regulations 3(2)(j) and 8(1)

FFURF HYSBYSIAD YN GWAHODD CYMRYD RHAN

FORM OF NOTICE OF INVITATION TO PARTICIPATE

DEDDF CYFUNDDALIAD A DIWYGIO CYFRAITH LESDDALIAD 2002

COMMONHOLD AND LEASEHOLD REFORM ACT 2002

Hysbysiad o wahoddiad i gymryd rhan yn yr hawl i reoli

Notice of invitation to participate in right to manage

At To

_____

_____

_____

_____

[enw a chyfeiriad] (**Gweler Nodyn 1 isod**) [name and address] (**See Note 1 below**)

1. Mae 1.

_____

[*enw'r cwmni RTM*] [*Name of RTM company*]

("y cwmni"), sy'n gwmni preifat cyfyngedig drwy warant, cyfeiriad

("the company"), a private company limited by guarantee of

_____

[*cyfeiriad y swyddfa gofrestredig*] [*address of registered office*]

rhif cofrestredig and of which the registered number is

_____

[*rhif o dan Ddeddf Cwmnïau 1985*] [*number under Companies Act 1985*]

wedi ei awdurdodi gan ei femorandwm cymdeithasu i gaffael ac arfer yr hawl i reoli

is authorised by its memorandum of association to acquire and exercise the right to manage

_____

[*enw'r fangre y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi*] ("y fangre").

[*name of premises to which notice relates*] ("the premises").

2. Mae'r cwmni yn bwriadu caffael yr hawl i reoli'r fangre.

Naill ai

3.1 Mae memorandwm cymdeithasu'r cwmni, ynghyd â'i erthyglau cymdeithasu, yn dod gyda'r hysbysiad hwn.

Ydyw *Ticiwch os yw hynny'n gywir ac ewch i baragraff 4* (**gweler Nodyn 2 isod**)

Neu

3.2 Cewch archwilio memorandwm cymdeithasu'r cwmni, ynghyd â'i erthyglau cymdeithasu, yn unol â'r trefniadau yn y paragraff canlynol.

Cewch. [*Ticiwch os yw'r datganiad uchod yn gymwys a chwblhewch weddill y paragraff 3 hwn.*] (**Gweler Nodyn 2**)

3.2.1 Yn

[*cyfeiriad ar gyfer yr archwiliad*]

3.2.2 rhwng

[*nodwch yr amserau*]. (**gweler Nodyn 3 isod**)

3.2.3 Ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o saith diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r hysbysiad hwn gael ei roi, gellir archebu copi o'r memorandwm cymdeithasu a'r erthyglau cymdeithasu oddi wrth

[*nodwch y cyfeiriad*]

3.2.4 drwy dalu

[*nodwch y ffi*]. (**gweler Nodyn 4 isod**)

4. Nodir enwau-

(a) aelodau'r cwmni;

(b) cyfarwyddwyr y cwmni; ac

(c) ysgrifennydd y cwmni,

yn yr Atodlen isod.

2. The company intends to acquire the right to manage the premises.

Either

3.1 The company's memorandum of association, together with its articles of association, accompanies this notice.

Yes. *Tick if this is the case and proceed to paragraph 4* (**See Note 2 below**)

Or

3.2 The company's memorandum of association, together with its articles of association, may be inspected in accordance with the arrangements in the following paragraph.

Yes. [*Tick if the statement above applies and complete the remainder of this paragraph 3.*] (**See Note 2**)

3.2.1 At

[*address for inspection*]

3.2.2 between

[*specify times*]. (**See Note 3 below**)

3.2.3 At any time within the period of seven days beginning with the day after this notice is given, a copy of the memorandum of association and articles of association may be ordered from

[*specify address*]

3.2.4 on payment of

[*specify fee*]. (**See Note 4 below**)

4.The names of-

(a) the members of the company;

(b) the company's directors; and

(c) the company's secretary,

are set out in the Schedule below.

5. Enwau'r landlord a'r person (os o gwbl) sy'n barti i brydles ar y cyfan neu ar unrhyw ran o'r fangre heblaw fel landlord neu denant yw:

5. The names of the landlord and of the person (if any) who is party to a lease of the whole or any part of the premises otherwise than as landlord or tenant are:

[*nodwch*]

[*specify*]

6. Yn ddarostyngedig i'r eithriadau a grybwyllir ym mharagraff 8, os bydd y cwmni yn caffael yr hawl i reoli, bydd y cwmni'n gyfrifol am-
(a) cyflawni dyletswyddau'r landlord o dan y les; a
(b) arfer ei bwerau o dan y les,

o ran gwasanaethau, trwsio, cynnal a chadw, gwelliannau, yswiriant a rheoli.

6. Subject to the exclusions mentioned in paragraph 8, if the right to manage is acquired by the company, the company will be responsible for-
(a) the discharge of the landlord's duties under the lease; and
(b) the exercise of his powers under the lease,

with respect to services, repairs, maintenance, improvements, insurance and management.

7. Yn ddarostyngedig i'r eithriad a grybwyllir ym mharagraff 8(b), os bydd y cwmni yn caffael yr hawl i reoli, caiff y cwmni orfodi cyfamodau tenant na chawsant eu trosglwyddo. (**Gweler Nodyn 5 isod**)

7. Subject to the exclusion mentioned in paragraph 8(b), if the right to manage is acquired by the company, the company may enforce untransferred tenant covenants. (**See Note 5 below**)

8. Os bydd y cwmni yn caffael yr hawl i reoli, ni fydd y cwmni'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau'r landlord nac arfer ei bwerau o dan y les-
(a) o ran mater sy'n ymwneud yn unig â rhan o'r fangre sy'n fflat neu'n uned arall nad yw'n ddarostyngedig i brydles a gaiff ei dal gan denant cymwys; neu
(b) ynghylch ailfynediad neu fforffediad.

8. If the right to manage is acquired by the company, the company will not be responsible for the discharge of the landlord's duties or the exercise of his powers under the lease-
(a) with respect to a matter concerning only a part of the premises consisting of a flat or other unit not subject to a lease held by a qualifying tenant; or
(b) relating to re-entry or forfeiture.

9. Os bydd y cwmni yn caffael yr hawl i reoli, bydd gan y cwmni swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol y cyfeirir atynt yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyd-ddeiliadaeth a Diwygio Cyfraith Prydlesi 2002. (**Gweler Nodyn 6 isod**)

9. If the right to manage is acquired by the company, the company will have functions under the statutory provisions referred to in Schedule 7 to the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. (**See Note 6 below**)

Naill ai

9.1 Mae'r cwmni yn bwriadu penodi asiant rheoli yn yr ystyr sydd i "managing agent" yn adran 30B(8) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985. (**Gweler Nodyn 7 isod**)

Either

9.1 The company intends to appoint a managing agent within the meaning of section 30B(8) of the Landlord and Tenant Act 1985. (**See Note 7 below**)

Ydyw. *Ticiwch os yw'r datganiad uchod yn gymwys. Os ydych yn ticio'r blwch hwn, ewch i baragraff 9.2. Os nad ydych yn ticio'r blwch hwn, ewch i baragraff 9.4.*

Yes. *Tick if the statement above applies. If you tick this box, proceed to paragraph 9.2. If you do not tick this box, proceed to paragraph 9.4.*

9.2 Os yw'n hysbys, rhowch enw a chyfeiriad yr asiant rheoli arfaethedig isod. *Ewch i baragraff 9.3.*

9.2 If known, give the name and address of the proposed managing agent below. *Proceed to paragraph 9.3.*

[*Enw a chyfeiriad yr asiant rheoli arfaethedig*]

[*Name and address of the proposed managing agent*]

9.3 Y person a enwir ym mharagraff 9.2 uchod yw'r asiant rheoli ar hyn o bryd.

Ie. *Ticiwch os yw'r datganiad uchod yn gymwys. Ewch i baragraff 10 p'un a yw'r datganiad uchod yn gymwys ai peidio.*

9.3 The person named in paragraph 9.2 above is the current managing agent.

Yes. *Tick if the statement above applies. Proceed to paragraph 10 whether or not the statement above applies.*

Neu

9.4 Nid yw'r cwmni yn bwriadu penodi asiant rheoli o fewn ystyr adran 30B(8) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985.

Cywir. *Ticiwch os yw'r datganiad uchod yn gymwys.* **(Gweler Nodyn 7 isod)** *[Os oes gan unrhyw aelod presennol o'r cwmni gymwysterau neu brofiad mewn perthynas â rheoli eiddo preswyl, rhowch y manylion ym mharagraff 4 o'r Atodlen isod.]*

Or

9.4 The company does not intend to appoint a managing agent within the meaning of section 30B(8) of the Landlord and Tenant Act 1985.

Yes. *Tick if the statement above applies.* **(See Note 7 below)** *[If any existing member of the company has qualifications or experience in relation to the management of residential property, give details in paragraph 4 of the Schedule below.]*

10. Os yw'r cwmni yn hysbysu ei hawliad i gaffael yr hawl i reoli'r fangre ("hysbysiad hawlio"), gall berson sydd neu sydd wedi bod yn aelod o'r cwmni fod yn atebol am y costau a dynnir gan y landlord ac eraill o ganlyniad i'r hysbysiad hawlio. (**Gweler Nodyn 8 isod**)

10.If the company gives notice of its claim to acquire the right to manage the premises (a "claim notice"), a person who is or has been a member of the company may be liable for costs incurred by the landlord and others in consequence of the claim notice. (**See Note 8 below**)

11. Gwahoddir chi i ddod yn aelod o'r cwmni. (**Gweler Nodyn 9 isod**)

11. You are invited to become a member of the company. (**See Note 9 below**)

12. Os nad ydych yn llwyr ddeall diben neu oblygiadau'r hysbysiad hwn, cynghorir chi i geisio cymorth proffesiynol.

12. If you do not fully understand the purpose or implications of this notice you are advised to seek professional help.

ATODLEN : SCHEDULE

1. Dyma enwau aelodau'r cwmni:

[*nodwch enwau aelodau'r cwmni*]

1. The names of the members of the company are:

[*state names of company members*]

2. Dyma enwau cyfarwyddwyr y cwmni:

[*enwau'r cyfarwyddwyr*]

2. The names of the company's directors are:

[*directors' names*]

3. Dyma enw ysgrifennydd y cwmni:

[*enw ysgrifennydd y cwmni*]

3. The name of the company's secretary is:

[*company secretary's name*]

[*Os yw'n gymwys rhowch yr wybodaeth ganlynol*.] (**Gweler paragraff 9.4 uchod**)

[*If applicable complete the following information*.] (**See paragraph 9.4 above**)

4. Mae gan aelod[au] canlynol y cwmni gymwysterau neu brofiad mewn perthynas â rheoli eiddo preswyl:

(1)

[*Enw'r aelod*]

[*y cymhwyster mewn perthynas â rheoli tir ac adeiladau preswyl*]

[*Nifer o flynyddoedd o brofiad mewn perthynas â rheoli eiddo preswyl*]

[*cyfeiriad[au] yr eiddo a'r dyddiadau pan gafwyd y profiad*]

4. The following member[s] of the company [has][have] qualifications or experience in relation to the management of residential property:

(1)

[*Name of member*]

[*qualification in relation to the management of residential property*]

[*Number of years experience in relation to the management of residential property*]

[*address[es] of [property][properties]and dates when experience acquired*]

(2) *[rhowch y manylion priodol gan ddilyn y patrwm uchod yn ôl yr angen]*

(2) *[repeat as above as necessary]*

Llofnodwyd drwy awdurdod y cwmni,

Signed by authority of the company,

_____

[*Llofnod aelod neu swyddog awdurdodedig*]

[*Signature of authorised member or officer*]

_____/ ___/_____

[*Rhowch y dyddiad* (**Gweler Nodyn 13 isod**)]

[*Insert date* (**See Note 13 below**)]

NODIADAU : NOTES

1. Rhaid anfon yr hysbysiad sy'n gwahodd cymryd rhan (hysbysiad yn y ffurf a geir yn Atodlen 1 i Reoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurf Rhagnodedig) (Cymru) 2004) at bob person sydd ar yr adeg y rhoddir yr hysbysiad yn denant cymwys fflat yn y fangre ond nad yw eisoes yn aelod o'r cwmni ac nad yw wedi cytuno i fod yn aelod ohono. Diffinnir "qualifying tenant" ("tenant cymwys") yn adran 75 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002").

1. The notice inviting participation (a notice set out in the form set out in Schedule 1 to the Right to Manage (Prescribed Particulars and Forms) (Wales) Regulations 2004) must be sent to each person who is at the time the notice is given a qualifying tenant of a flat in the premises but who is not already, and has not agreed to become, a member of the company. A qualifying tenant is defined in section 75 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 ("the 2002 Act").

2. Rhaid rhoi gyda'r hysbysiad naill ai (a) copi o femorandwm cymdeithasu ac erthyglau cymdeithasu'r cwmni RTM neu (b) rhaid iddo gynnwys datganiad ynghylch archwilio a chopïo'r Memorandwm Cymdeithasu ac Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni RTM yn rhoi'r wybodaeth a bennir ym mharagraff 3 o'r hysbysiad.

2. The notice must either (a) be accompanied by a copy of the memorandum of association and articles of association of the RTM company or (b) include a statement about inspection and copying the Memorandum of Association and the Articles of Association of the RTM company giving the information specified in paragraph 3 of the notice.

3. Rhaid i'r amserau a nodir fod yn gyfnodau o 2 awr o leiaf ar bob un o 3 diwrnod o leiaf (gan gynnwys dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu'r ddau) o fewn y 7 diwrnod gan ddechrau drannoeth i'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

3. The specified times must be periods of at least 2 hours on each of at least 3 days (including a Saturday or Sunday or both) within the 7 days beginning with the day following that on which the notice is given.

4. Rhaid i'r cyfleuster archebu fod ar gael drwy'r cyfnod 7 diwrnod y cyfeirir ato yn Nodyn 3. Rhaid i'r ffi beidio â bod yn fwy na chost resymol darparu'r copi a archebir.

4. The ordering facility must be available throughout the 7 day period referred to in Note 3. The fee must not exceed the reasonable cost of providing the ordered copy.

5. Cyfamod tenant na chafodd ei drosglwyddo yw cyfamod mewn les tenant y mae'n rhaid iddo gydymffurfio ag ef, ond na ellir ei orfodi gan y cwmni ond yn rhinwedd adran 100 o Ddeddf 2002.

